**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/2452/22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

21 Hydref 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022**

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod yn rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022 ("y Rheoliadau drafft") ar 20 Hydref 2022.

Bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu gwneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Byddant yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir rhag gweithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid perthynol, neu symud anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid drwy Brydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau drafft yn addasu Cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd, yn trosglwyddo swyddogaethau cyrff yr UE o fewn y Cyfarwyddebau UE hynny i'r awdurdod priodol ac yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Yr Alban) 2011 i ddiweddaru'r drefn ddeddfwriaethol a gweithredu addasiadau a throsglwyddo swyddogaethau.

Cyn bo hir, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau cyfatebol, a fydd yn creu nifer o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ac yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at reoliad 4(3) ac 8(2) o'r Rheoliadau drafft sy'n darparu, os bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi cydsyniad, y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer pwerau gwneud rheoliadau, fel awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae deddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn dod o dan eithriadau o fewn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021, ac felly ni fyddai creu'r swyddogaethau 'cydredol plws' hyn yn amharu ar allu'r Senedd i ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol, pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Mae swyddogaethau tebyg yng nghyd-destun Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi'u cymeradwyo'n flaenorol ar y sail bod buddiant cydfuddiannol i bob gweinyddiaeth wrth gymhwyso mesurau cydlynol i atal clefydau  ac mae angen i'r swyddogaethau yn y Rheoliadau drafft weithio ar gyfer Prydain Fawr gyfan. Ar ben hynny, maent yn cael eu harfer yng nghyd-destun Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyffredin y DU gyda phrosesau llywodraethu a ddiffinnir yn glir ar gyfer ymgysylltu traws-lywodraethol. Bydd unrhyw newidiadau polisi neu ddefnydd o'r pwerau yn cael eu trafod yn y Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid, sef corff llywodraethu'r Fframwaith Cyffredin hwn, a lle caiff penderfyniadau polisi eu gwneud drwy gonsensws.

Mae'n bwysig nodi bod gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer y swyddogaeth hon yn dibynnu ar gydsyniad Gweinidogion Cymru. Rydym yn rhagweld mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai hyn yn digwydd. Mae'r swyddogaeth hon felly'n briodol ac yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd mewn deddfwriaeth a phrosesau gweinyddol eraill yn y maes polisi hwn.

Hoffwn sicrhau'r pwyllgor hwn mai polisi arferol Llywodraeth Cymru yw deddfu dros Gymru ar faterion datganoledig. Ond mewn rhai amgylchiadau mae manteision i gydweithio gyda Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol a chadw at rwymedigaethau rhyngwladol, a sicrhau cydgysylltiad a chysondeb traws-lywodraethol.

Bydd y rheoliadau'n cael eu gosod ar ffurf ddrafft gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref 2022 i ddod i rym y diwrnod yn dilyn dadl a fydd yn cael ei chynnal rhwng 11 Tachwedd a 01 Rhagfyr.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd